CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1422 (Cy.102)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau ac Offer) Diwygio (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau ac Offer) 1989 ("y prif Reoliadau") sy'n darparu ar gyfer codi ac adennill ffioedd am gyffuriau ac offer sy'n cael eu cyflenwi gan feddygon a fferyllwyr sy'n darparu gwasanaethau fferyllol, a chan Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol i gleifion allanol.

Mae'r diwygiadau a wneir i'r prif Reoliadau gan reoliad 2 a'r Atodlen yn codi'r ffi am eitemau ar bresgripsiwn neu sy'n cael eu cyflenwi i gleifion allanol o £5.90 i £6.00. Codir y ffi am hosanau elastig o £5.90 i £6.00 yr un (o £11.80 i £12.00 y pâr) a'r ffi am drywsanau o £11.80 i £12.00. Codir y ffioedd am wallt gosod rhannol ddynol a gwallt gosod modacrylig o £129.00 i £131.50 ac o £49.00 i £49.90 yn ôl eu trefn. Codir y ffi am wallt gosod dynol llawn o £188.50 i £192.00. Codir y ffi am staesiau ffabrig o £29.95 i £30.50. Codir y symiau a ragnodir ar gyfer rhoi tystsygrifau rhagdalu o £30.80 i £31.40 am dystysgrif bedwar-mis ac o £84.60 i £86.20 am dystysgrif ddeuddeng-mis.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud trefniadau trosiannol hefyd yn rheoliad 3 ynglŷn â thystysgrifau rhagdalu y gwnaed cais amdanynt ac offer a archebwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1422 (W.102)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Amendment (Wales) Regulations 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

These Regulations further amend the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Regulations 1989 ("the principal Regulations") which provide for the making and recovery of charges for drugs and appliances supplied by doctors and chemists providing pharmaceutical services, and by Health Authorities and National Health Service Trusts to out-patients.

Amendments made to the principal Regulations by regulation 2 and the Schedule increase the charge for items on prescription or supplied to out-patients from £5.90 to £6.00. The charge for elastic stockings is increased from £5.90 to £6.00 each (from £11.80 to £12.00 per pair) and that for tights from £11.80 to £12.00. The charges for partial human hair wigs and modacrylic wigs are increased from £129.00 to £131.50 and from £49.00 to £49.90 respectively. The charge for full human hair wigs is increased from £188.50 to £192.00. The charge for fabric supports is increased from £29.95 to £30.50. The sums prescribed for the grant of pre-payment certificates are increased from £30.80 to £31.40 for a four month certificate and from £84.60 to £86.20 for a twelve month certificate.

These Regulations also make transitional arrangements in regulation 3 in respect of pre-payment certificates applied for and appliances ordered before the coming into force of these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1422 (Cy.102)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau ac Offer) Diwygio (Cymru) 2000

*Wedi'u gwneud* *30 Mawrth 2000*

*Yn dod i rym* *1 Ebrill 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 77 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977**(a)** a phob per arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw:-

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau ac Offer) Diwygio (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2000.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau ac Offer) 1989**(b)**.

(3) Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygio symiau a bennir yn y prif Reoliadau**

**2.** Am bob swm a bennir yng ngholofn (3) o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, lle mae'n ymddangos yn narpariaeth y prif Reoliadau a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (1) (y mae ei chynnwys wedi'i nodi yng ngholofn (2)), rhoddir y swm a bennir mewn

(a) 1977 p.49; gweler adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990") adran 26(2)(g) ac (i), am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations". Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 77 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(b) O.S. 1989/419; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1990/537, 1991/579, 1992/365, 1993/420, 1994/690, 1994/2402, 1995/643, 1995/2737, 1996/583, 1997/559, 1998/491, 1998/646, 1999/767.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1422 (W.102)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Amendment (Wales) Regulations 2000

*Made* *30th March 2000*

*Coming into force* *1st April 2000*

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on it by sections 77 and 126(4) of the National Health Service Act 1977**(a)** and of all other powers enabling it in that behalf:-

**Citation, commencement, interpretation and application**

**1.**-(1) These Regulations may be cited as the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Amendment (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 1st April 2000.

(2) In these Regulations, "the principal Regulations" means the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Regulations 1989**(b)**.

(3) These Regulations shall apply to Wales only.

**Amendment of amounts specified in the principal Regulations**

**2.** For each amount specified in column (3) of the Schedule to these Regulations, where it appears in the provision of the principal Regulations specified in relation to it in column (1) (the subject matter of which is indicated in column (2)), there shall be substituted

(a) 1977 c.49; see section 128(1) as amended by the National Health Service and Community Care Act 1990 (c.19) ("the 1990 Act"), section 26(2)(g) and (i), for the definitions of "prescribed" and "regulations". Section 126(4) was amended by the 1990 Act, section 65(2). The functions of the Secretary of State under sections 77 and 126(4) of the National Health Service Act 1977 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(b) S.I. 1989/419, as amended by S.I. 1990/537, 1991/579, 1992/365, 1993/420, 1994/690, 1994/2402, 1995/643, 1995/2737, 1996/583, 1997/559, 1998/491, 1998/646, 1999/767.

perthynas ag ef yng ngholofn (4).

**Darpariaethau trosiannol**

**3.** Os, ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny-

(a) y bydd unrhyw offer a bennir yn Atodlen 1 i'r prif Reoliadau yn cael ei gyflenwi yn unol ag archeb a roddir cyn y dyddiad hwnnw; neu

(b) y bydd unrhyw dystysgrif ragdalu yn cael ei rhoi o dan reoliad 8 o'r prif Reoliadau yn unol â chais o dan y rheoliad hwnnw a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw,

bydd y prif Reoliadau yn cael effaith mewn perthynas â chyflenwi'r offer neu, yn ôl y digwydd, rhoi'r dystysgrif fel pe na bai rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn wedi dod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(a)**.

30 Mawrth 2000

*D. Elis Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

the amount specified in relation to it in column (4).

**Transitional provisions**

**3.** Where, on or after 1st April 2000-

(a) any appliance specified in Schedule 1 to the principal Regulations is supplied pursuant to an order given before that date; or

(b) any pre-payment certificate is granted under regulation 8 of the principal Regulations pursuant to an application under that regulation which was received before that date,

the principal Regulations shall have effect in relation to that supply or, as the case may be, that grant as if regulation 2 of these Regulations had not come into force.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(a)**.

30th March 2000

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

ATODLEN



## SYMIAU A AMNEWIDIR YN Y PRIF REOLIADAU

| *(1)*<br>*Y ddarpariaeth yn y prif Reoliadau* | *(2)*<br>*Cynnwys* | *(3)*<br>*Yr hen swm* | *(4)*<br>*Y swm newydd* |
|---|---|---|---|
| Rheoliad 3- | Cyflenwi cyffuriau ac offer gan fferyllwyr- | | |
| paragraff (1)(a) | y ffi am hosanau elastig-<br>fesul eitem<br>fesul pâr | <br>£5.90<br>£11.80 | <br>£6.00<br>£12.00 |
| paragraff (1)(c) | y ffi am gyffuriau, ac am offer sydd heb eu pennu ym mharagraff (1)(a) | £5.90 | £6.00 |
| paragraff (3) | y ffi am gyffuriau a gyflenwir fesul tipyn | £5.90 | £6.00 |
| Rheoliad 4- | Cyflenwi cyffuriau ac offer gan feddygon- | | |
| paragraff (1)(a) | y ffi am hosanau elastig -<br>fesul eitem<br>fesul pâr | <br>£5.90<br>£11.80 | <br>£6.00<br>£12.00 |
| paragraff (1)(b) | y ffi am gyffuriau, ac am offer sydd heb eu pennu ym mharagraff (1)(a) | £5.90 | £6.00 |
| paragraff (3) | y ffi am gyffuriau sy'n cael eu cyflenwi fesul tipyn | £5.90 | £6.00 |
| Regulation 5- | Cyflenwi cyffuriau ac offer i gleifion allanol gan Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau NHS- | | |
| paragraff (1)(a) | y ffi am hosanau elastig -<br>fesul eitem<br>fesul pâr | <br>£5.90<br>£11.80 | <br>£6.00<br>£12.00 |
| paragraff (1)(c) | y ffi am drywsanau | £11.80 | £12.00 |
| paragraff (1)(d) | y ffi am gyffuriau ac am offer sydd heb eu pennu ym mharagraff (1)(a) neu (1)(c), neu yn Atodlen 1 | £5.90 | £6.00 |
| paragraff (3) | y ffioedd am gyffuriau sy'n cael eu cyflenwi fesul tipyn | £5.90 | £6.00 |
| Rheoliad 8(5)- | tystysgrif ragdalu-<br>4 mis<br>12 mis | <br>£30.80<br>£84.60 | <br>£31.40<br>£86.20 |
| Atodlen 1- | y ffioedd a godir am staesiau ffabrig a gwallt gosod-<br>bronglwm llawfeddygol<br>staes abdomenol neu staes y cefn<br>gwallt gosod modacrylig stoc<br>gwallt gosod rhannol ddynol<br>gwallt gosod dynol llawn wrth fesur | <br><br>£19.95<br>£29.95<br>£49.00<br>£129.00<br>£188.50 | <br><br>£20.30<br>£30.50<br>£49.90<br>£131.50<br>£192.00 |

SCHEDULE

Regulation 2

## AMOUNTS SUBSTITUED IN THE PRINCIPAL REGULATIONS

| *(1)*<br>*Provision in the principal Regulations* | *(2)*<br>*Subject matter* | *(3)*<br>*Old amount* | *(4)*<br>*New amount* |
|---|---|---|---|
| Regulation 3-- | Supply of drugs and appliances by chemists- | | |
| paragraph (1)(a) | charge for elastic hosiery-<br>per item<br>per pair | <br>£5.90<br>£11.80 | <br>£6.00<br>£12.00 |
| paragraph (1)(c) | charge for drugs, and for appliances not specified in paragraph (1)(a) | £5.90 | £6.00 |
| paragraph (3) | charge for drugs supplied by instalments | £5.90 | £6.00 |
| Regulation 4-- | Supply of drugs and appliances by doctors- | | |
| paragraph (1)(a) | charge for elastic hosiery-<br>per item<br>per pair | <br>£5.90<br>£11.80 | <br>£6.00<br>£12.00 |
| paragraph (1)(b) | charge for drugs, and for appliances not specified in paragraph (1)(a) | £5.90 | £6.00 |
| paragraph (3) | charge for drugs supplied by instalments | £5.90 | £6.00 |
| Regulation 5-- | Supply of drugs and appliance to out-patients by Health Authorities and NHS Trusts- | | |
| paragraph (1)(a) | charge for elastic hosiery-<br>per item<br>per pair | <br>£5.90<br>£11.80 | <br>£6.00<br>£12.00 |
| paragraph (1)(c) | charge for tights | £11.80 | £12.00 |
| paragraph (1)(d) | charge for drugs and for appliances not specified in paragraph (1)(a) or (1)(c), or in Schedule 1 | £5.90 | £6.00 |
| paragraph (3) | charges for drugs supplied by instalments | £5.90 | £6.00 |
| Regulation 8(5)- | pre-payment certificate-<br>4 months<br>12 months | <br>£30.80<br>£84.60 | <br>£31.40<br>£86.20 |
| Schedule 1- | charges for fabric supports and wigs-<br>surgical brassiere-<br>abdominal or spinal support<br>stock modacrylic wig<br>partial human hair wig<br>full bespoke human hair wig | <br>£19.95<br>£29.95<br>£49.00<br>£129.00<br>£188.50 | <br>£20.30<br>£30.50<br>£49.90<br>£131.50<br>£192.00 |

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1422 (Cy.102)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau ac Offer) Diwygio (Cymru) 2000

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1422 (W.102)

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Amendment (Wales) Regulations 2000

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090082-0

9 780110 900827

**£2.00**

WO6135 07/00 ON